Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Arolwg Pobl Awdurdod Cyllid Cymru: 2022

Canfyddiadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) 2022. Yn mesur ymgysylltiad â chyflogeion er mwyn helpu i wella perfformiad, darpariad gwasanaethau a llesiant staff sefydliadau.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 27 Mehefin 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 27 Mehefin 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-pobl-awdurdod-cyllid-cymru-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Crynodeb**

**Prif ganlyniadau**

**Atodiad**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-pobl-awdurdod-cyllid-cymru-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolwg Pobl rhwng 22 Medi a 31 Hydref.

- Cymerodd 74 o staff ACC ran yn yr arolwg.
- Cyfradd ymateb o 89%.
- Roedd mynegai ymgysylltiad gweithwyr ar gyfer ACC yn 77% cadarnhaol.

Mae ymgysylltu â gweithwyr yn ddull gweithle sydd wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau bod gweithwyr wedi ymrwymo i nodau a gwerthoedd eu sefydliad, a'u bod yn cael eu cymell i gyfrannu at lwyddiant sefydliadol.

## Prif ganlyniadau

### Canlyniadau Arolwg Pobl ACC 2022 ar gyfer ymgysylltiad gweithwyr a 9 thema graidd

| Thema | % Cadarnhaol | O’i gymharu â’r arolwg blaenorol | O’i gymharu â Meincnod y Gwasanaeth Sifil |
|---|---:|---:|---:|
| Mynegai ymgysylltu | 77% | -1 | +13 |
| Fy ngwaith | 89% | 0 | +11 |
| Amcanion a diben sefydliadol | 92% | 0 | +9 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-pobl-awdurdod-cyllid-cymru-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Thema | % Cadarnhaol | O’i gymharu â’r arolwg blaenorol | O’i gymharu â Meincnod y Gwasanaeth Sifil |
|---|---|---|---|
| Fy rheolwr | 88% | 0 | +11 |
| Fy nhîm | 92% | -3 | +9 |
| Dysgu a datblygu | 67% | 0 | +12 |
| Cynhwysiant a thriniaeth deg | 93% | +1 | +12 |
| Adnoddau a llwyth gwaith | 93% | +3 | +18 |
| Cyflog a buddion | 79% | -5 | +52 |
| Arweinyddiaeth a rheoli newid | 79% | +2 | +25 |

# Atodiad

## Rhestr termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| % Cadarnhaol | Y gyfran a ddewisodd 'gytuno' neu 'gytuno'n gryf', ar gyfartaledd ar |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-pobl-awdurdod-cyllid-cymru-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| | draws yr holl gwestiynau o fewn y thema |
| Arolwg blaenorol | Mae cymhariaethau â'r arolwg blaenorol yn ymwneud â chanlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2021 |
| Meincnod y Gwasanaeth Sifil | Canolrif y ganran gadarnhaol ar draws yr holl sefydliadau a gymerodd ran yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2022 |

## Mynegai ymgysylltiad gweithwyr

Mae'r arolwg yn cynnwys 5 cwestiwn sy'n creu'r mynegai ymgysylltiad.

Mae’r sgôr mynegai yn cynrychioli lefel gyfartalog yr ymgysylltu yn yr uned honno ac yn amrywio o 0 i 100. Mae sgôr mynegai o 0 yn cynrychioli'r holl ymatebwyr yn yr uned honno’n dweud eu bod yn anghytuno'n gryf â phob un o'r pum cwestiwn ymgysylltu ac mae sgôr o 100 yn cynrychioli'r holl ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno'n gryf â phob un o'r pum cwestiwn ymgysylltu.

## Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau fel rhifau cyfan er mwyn hwyluso'r darllen, gan dalgrynnu yng ngham olaf y cyfrifo er mwyn sicrhau’r cywirdeb gorau posibl. Felly mewn rhai achosion, ni fydd y gwahaniaethau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i ffigurau wedi’u talgrynnu y sgoriau sy'n cael eu cymharu.

Er enghraifft, os yw eich sgôr Mynegai Ymgysylltiad, heb ei dalgrynnu, yn 75.4%, sgôr cyffredinol eich sefydliad yw 74.6%, yn yr adroddiad hwn byddai'r sgorau hyn yn ymddangos fel 75%.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-pobl-awdurdod-cyllid-cymru-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cyfrinachedd

Cynhaliwyd yr arolwg fel rhan o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2022, a reolir gan Swyddfa'r Cabinet ar ran yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan. Comisiynir sefydliad allanol gan Swyddfa'r Cabinet i gynnal yr Arolwg.

Er mwyn diogelu anhysbysedd unigolion, ni adroddir ar grwpiau o lai na 10 ymatebydd, ond mae eu hymatebion yn cyfrannu at y sgoriau cyffredinol ar gyfer yr uned a'r sefydliad y maen.

**Mae Hysbysiad Preifatrwydd Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil i'w weld ar GOV.UK**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-pobl-awdurdod-cyllid-cymru-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.